Mae'r papur strategaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer creu gweithlu patholeg aml-broffesiynol cynaliadwy dros y 5 mlynedd nesaf, wedi cael ei ddosbarthu i'w adolygu gan gymheiriaid a rhanddeiliaid dros y misoedd diwethaf. Dylai'r dogfennau gael eu cwblhau'n fuan, a chânt eu cyflwyno i'r PWEG i'w cymeradwyo ac yna byddant yn dilyn trefn lywodraethu'r Rhaglen er mwyn cael eu cymeradwyo cyn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol. Mae'r Rhaglen wedi dal i weithio gyda Grŵp yr Arweinyddion Hyfforddiant Patholeg i ychwanegu mwy o gynnwys i'r academi 'rithiol' Batholeg 'beilot', sy'n cael ei datblygu i rannu deunydd/adnoddau hyfforddiant ac addysg ar gyfer pob disgylblaeth ar draws y byrddau iechyd/ymddiriedolaethau. Mae'r Grŵp hefyd wedi datblygu papur ar sicrhau ansawdd y cynnwys. Bydd 'beilot' o rôl Hwylusydd Addysg Ymarfer (PEF) Patholeg yn dechrau yn y deufis nesaf ym myrddau iechyd de-ddwyrain Cymru. Bydd y prosiect yn edrych ar sut allai rôl PEF gefnogi a datblygu timau a strwythurau hyfforddiant Patholeg. Bu'r Rhaglen yn gweithio gyda Phatholeg Gellog BIPBC a BIPCF i sefydlu cwrs hyfforddiant peilot ar gyfer adroddiadau BMS cwmpas cyfyngedig i gefnogi'r Rhaglen Sgrinio Coludion Cymru. Mae'n blesar gennym gyhoeddi bod cyllid ar gyfer y prosiect hyfforddiant peilot hwn wedi cael ei gymeradwy gan y Moondance Cancer Initiative yn ddiweddar. Rydyn ni'n awr yn gweithio ar y trefniadau er mwyn i'r cwrs hyfforddiant ddechrau yn BIPBC a BIPCF y flwyddyn nesaf.

Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu at yr holl ddatblygiadau hyn.

Sicrhau Ansawdd

Mae'r Grŵp Cydymffurfiaeth Reoleiddiol a Sicrhau Ansawdd Patholeg yn dal i weithredu fel fforwm pwysig ar gyfer rhannu'r profiadau a'r arferion gorau rhwng gwasanaethau Patholeg, gan gefnogi'r trefniadau ar gyfer gwella ansawdd ar draws y system. Mae hyn yn cynnwys rhannu gwersi a phrofiadau

o asesiadau UKAS i ISO 15189:2012 a hefyd archwiliadau cydymffuriaeth reoleiddiol gan yr MHRA a HTA. Mae gwaith nawr yn mynd rhagddo o safbwyt y trawsnewid i ISO 15189:2022 i hwyluso'r trefniadau ar gyfer rhannu dysgu, rhannu'r arferion gorau ac ystyried safoni lle bo hynny'n bosibl. Mae'r grŵp hefyd wrthi'n parhau i fonitro'r newidiadau i'r rheoliadau IDVR a dyfeisiau meddygol ac unrhyw effaith ar batholeg.

Profi yn y Pwynt Gofal

Gweler yr erthygl isod ar Sefydlu Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer POCT.

Deallusrwydd busnes

Bydd y ffrwd waith Deallusrwydd Busnes Patholeg yn ailgychwyn tuag at ddiweddu y flwyddyn ar ôl recriwtio'n llwyddiannus ym mis Awst i'r rôl Gwybodeg wag yn y Rhaglen Batholeg Genedlaethol.

Patholeg Gellog Ddigidol

Gweler y 'Stori Newyddion Da' isod.

Cyfathrebu

Mae'r Strategaeth newydd ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid yn awr wedi cael ei hanfon i gyfarfodydd y ffrydianu gwaith unigol i'w hadolygu ac i dderbyn sylwadau arni; cafodd y ddogfen ei llunio gan y Rhaglen Batholeg Genedlaethol, gyda chyfraniadau gan rwydweithiau Gweithrediaeth y GIG a thîm cyfathrebu'r gyfarwyddiaeth gynllunio. Amlinella'r strategaeth yr angen am well cyfathrebu a gweithgareddau rhanddeiliaid er mwyn cryfhau ac amlygu'r proffil Patholeg yng Nghymru. Ar ôl i'r holl ddiwygiadau gael eu gwneud, byddwn yn ei chyflwyno i Bwylgor Goruchwylio'r Rhaglen Batholeg Genedlaethol, y Bwrdd Strategol ac i'r Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol i'w chymeradwyo. Nodwyd meysydd gwaith blaenoriaethol, gan gynnwys, Bod angen i wybodaeth fod ar gael yn rhwydd ac yn hawdd i fyfyrwyr, athrawon, rhieni, Patholegwyr a rheolwyr. Mae angen cryfhau'r ymgysylltiad â chlinigwyr a chleifion.

Rhanbartholi/Cydweithrediad y Gwasanaeth Patholeg

Mae rhaglen ARCH yn ne-orllewin Cymru sy'n cynnwys Byrddau lechyd Prifysgol Bae Abertawe a Hywel Dda yn parhau â'r gwaith o ddatblygu Achos Busnes Amlinell cydweithredu i'r Gwasanaeth Patholeg i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn y Flwyddyn Newydd gan dybio y ceir cymeradwyaeth drwy lywodraethu sefydliadol.

Mae'r rhaglen cydweithredu yn ne-ddwyrain Cymru sy'n cynnwys Byrddau lechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf Morgannwg wedi sefydlu grŵp cwmpasu i archwilio modelau gweithredu cydweithredol posibl ar gyfer Patholeg Gellog. Mae gwerthusiad o'r opsiynau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau hefyd yn mynd rhagddo.

Diweddfariad ar y Rhaglen Batholeg Genedlaethol – Deallusrwydd Artiffisial mewn Patholeg

Mae'r Rhaglen Batholeg Genedlaethol yn gyffrous iawn ac yn falch o gyhoeddi bod Prosiect AI IBEX wedi cyrraedd y rownd derfynol yng Ngwobrau Arloesi'r Deyrnas Unedig dan y categori Arloesi a Lledaenu.

Mae'r ymgais, dan yr enw "Chwyldro AI arloesol ar gyfer Patholeg ar draws Cymru", yn disgrifio sut mae'r prosiect hwn yn ymdrechu i werthuso cymhwysiad deallusrwydd artiffisial newydd IBEX Galen sydd â chymeradwyaeth CE i gefnogi Patholegwyr i ddiagnosio biopsïau prostadig, yn ogystal â gwella'r gwaith parhaus o gyflwyno Patholeg ddigidol ar draws Cymru.

Drwy gyfrwng cyllid drwy Gronfa Arloesi Llywodraeth Cymru a chefnogaeth drwy gyfrwng gwaith Canolfan Ragoriaeth y



Cafodd ychydig dan 2000 o achosion (10,000 o sleidiau) eu gwerthuso erbyn diwedd cam 2, a dangosodd yr astudiaeth gwireddu manteision ganlyniadau ardderchog. Arweiniodd hyn at gychwyn cam 3, ac erbyn diwedd Medi 2023 bydd y 6 Bwrdd lechyd yng Nghymru yn rhan o'r prosiect (fe'i rheolir nawr gan y Rhaglen Batholeg Genedlaethol) a byddant yn defnyddio Patholeg ddigidol i gefnogi'r gwaith o lunio adroddiadau diagnostig.

Cynhaliwyd y seremoni wobrwyd nos lau 21ain Medi 2023 ac er na ddaethom yn fuddugol ar y noson, roeddem yn falch iawn o fod ar y rhestr fer a rhannu'r categori gyda phrosiectau arloesol eraill.

Yn ychwanegol at y newyddion cyffrous hwn, rydyn ni hefyd yn falch iawn o ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau datganiad i'r wasg yn dilyn ymwelliad y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Eluned Morgan, â Bwrdd lechyd

Cynllun Ymchwil i Fusnesau Bach (SBRI), lluniwyd y prosiect fel rhaglen 2 gam. Roedd Cam 1 yn golygu gweithio gydag IBEX ar gwblhau astudiaeth beilot 80 achos ym Mwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), lle'r oedd Patholeg ddigidol eisoes wedi sefydlu'n dda. Roedd Cam 2 yn golygu reciwtio Bwrdd lechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd lechyd Prifysgol Aneurin Bevan, lle cai Patholeg ddigidol ei defnyddio ond nid oedd wedi sefydlu'n dda eto.

Prifysgol Betsi Cadwaladr ddiweddu Gorffennaf. Meddai'r Gweinidog Yn ystod fy ymweliad heddiw, rydyn ni'n gweld sut mae AI yn cynnig cyfleoedd anhygoel i drawsnewid y ffordd rydyn ni'n rhyngweithio ac yn cyflwyno gwasanaethau'r GIG. Mae manteision defnyddio AI i helpu i wneud diagnosis o ganser wedi rhagori ar ein holl ddisgwyliadau ac mae'n wych bod chwech o Fyrrddau lechyd Cymru yn gwneud treialon pellach â'r dechnoleg hon. Mae'r system IBEX wedi dangos gwir addewid a phosibiliadau'r math hwn o dechnoleg, ac mae'n gyffrous iawn meddwl am y posibiliadau i ddefnyddio hon i'r dyfodol ar gyfer canfod amrywiaeth mawr o ganserau.

Sefydlu rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer POCT – heriau a manteision

Annette Thomas, Gwyddonydd Clinigol Ymgynghorol, Arweinydd Clinigol PoCT Cenedlaethol

Sefydlwyd y Grŵp Cyflawni POCT Cenedlaethol yn 2006 fel rhwydwaith anffurfiol o reolwyr a chydlynwyr POCT ar draws Cymru fel fforwm agored i drafod y trefniadau ar gyfer gweithredu rhaglenni POCT newydd, rhannu'r arferion gorau, a hysbysu'r llywodraeth ar faterion ansawdd a diogelwch. Mae'r aelodau hefyd yn cynnwys arbenigwyr gwybodeg a chaffael. Gan wasanaethu poblogaeth o ≈ 3.1M, caiff y gwasanaeth iechyd yng Nghymru ei ddarparu gan 7 o Fyrrddau lechyd (Bl) a 3 o Ymddiriedolaethau arbenigol. Mae'r Byrrddau lechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth POCT mewn 15 o Ysbytai aciwt mawr, 21 o Unedau mân-anafiadau (MIU), 18 o Ysbytai iechyd meddwl a 30 o Ysbytai Cymuned, a hefyd am gomisiynu gwasanaethau dros 2000 o feddygon teulu.

Mae'r Tîm POCT ym mhob bwrdd iechyd yn gyfrifol am roi'r sicrwydd y defnyddir y prawf a'r ansawdd iawn ar gyfer ei ddefnydd clinigol, bod defnyddwyr yn hyfforddledig a chymwys i wneud y prawf, bod pawb yn deall cyfyngiadau'r prawf, y ceir mynediad i bersonél sy'n gallu dehongli'r prawf yn gywir, ac y ceir trywydd archwilio cyflawn o'r broses. Mae hyn yn cynnwys: cytuno ar fanyleb ar gyfer caffael POCT, cyngor ar ddefnyddioldeb clinigol y prawf, gwerthuso ansawdd, asesiad o hyfforddiant a chymhwysedd, cyngor ar seilwaith TG a chysylltedd dyfeisiau, monitro'r trefniadau sicrhau ansawdd, cadw golwg ar berfformiad, archwilio, cadw golwg ar y drefn lywodraethu a gwneud adroddiadau ar ddigwyddiadau yn y bwrdd iechyd. Mae eu cylch gorchwyl yn cwmpasu gofal eilaidd, gofal yn y gymuned a gofal sylfaenol. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob 6-8 wythnos ac mae wedi aeddfedu dros y degawd diwethaf i gyflawni nifer o raglenni gwaith penodol:

- Sefydlu strwythurau llywodraethu a rheoli priodol ym mhob bwrdd iechyd
- Wedi cynghori'r Llywodraeth ar ddatblygu Polisi Cenedlaethol ar POCT, polisi a gymeradwywyd ac a weithredwyd yn 2017
- Wedi llunio dogfennau cymhwysedd a Hyfforddiant Cenedlaethol ar gyfer dyfeisiau POCT. Gan weithio gyda'r cyrff dyfarnu cymwysterau cafodd cyfres o unedau a'u credydau cysylltiedig eu datblygu.
- Wedi datblygu adnoddau gwybodaeth ar gyfer gwefan genedlaethol POCT ar gyfer pob defnyddiwr a darparwr gofal iechyd
- Wedi datblygu fframweithiau a manylebau caffael seiliedig ar werth Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau POCT, e.e. fframwaith o gyflenwyr a ffafri'r ar gyfer profion nwyon gwaed / Beicioigrwydd / Dadansoddi wrin, gwasanaeth dyfeisiau glwcos gwaed a reolir i weithwyr gofal iechyd professiynol mewn gofal eilaidd, llyfr fformiwlâu cenedlaethol ar gyfer dyfeisiau hunan-brofi ar gyfer diabetes, gwasanaeth a reolir ar gyfer monitro INR mewn gofal sylfaenol gan gynnwys cleifion sy'n hunan-reoli, fframwaith ar gyfer profion fisgo-elastig atal gwaed ar gyfer gwaedlif ôl-essgor, ac ymarferiad caffael cenedlaethol ar gyfer dyfeisiau POCT ar gyfer profion antigenau SARS-CoV-2 mewn gofal eilaidd
- Wedi datblygu Strategaeth TG POCT Cenedlaethol ac ateb ar gyfer cysylltedd. Cafodd system ei chaffael gan ddarparu'r seilwaith i alluogi cysylltedd llawn i'r holl ddyfeisiau POCT a gymeradwywyd ar draws Cymru i gefnogi trefniadau i wneud penderfyniadau ar y cyd. Hyd yma, mae saith o fyrrddau iechyd, sy'n cwmpasu amryfal leoliadau ysbytai mewn ardaloedd gwledig a threfol, ac 1 ymddiriedolaeth ganser, wedi cael eu cysylltu gan gynrychioli 3200 o ddyfeisiau, 35 o wahanol ryngwynebau ac amrywiaeth mawr o ddyfeisiau. Cafodd y platform ei ryng-gysylltu â System Gwybodaeth Labordai genedlaethol, (LIMS), gan hwyluso integreiddiad â phorth canlyniadau cleifion a systemau yn is i lawr y system gyflawni. Ymysg y datblygiadau diweddar y mae adolygu dyluniad y seilwaith a pheilot ar gyfer cysylltedd gofal sylfaenol a chymunedol
- Wedi rhannu'r arfer gorau ar werthuso dyfeisiau megis adnabod a diliysu profion gwrth-gyrff ac antigenau 2 POCT Sars Cov 2 yn ystod y pandemig
- Wedi cynnal Archwiliadau Cenedlaethol o'r gwasanaeth a chyflwyno argymhellion ar gyfer gwella

Mae gan rwydweithio fanteision amlwg, megis dysgu a rhannu'r arferion gorau, gwybodaeth a ffynonellau gwybodaeth, yn ogystal â bod yn gefn ac yn gymorth pan fo angen. Mae'r manteision ariannol yn cynnwys contractau caffael cost-effeithiol drwy arbedion maint, gwell effeithlonrwydd drwy safoni dyfeisiau, safoni prosesau megis asesu cymhwysedd a hyfforddiant, a gweithio ar y cyd i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau a dull symlach o drefnu gwasanaeth POCT yn gyflym pan fo angen. Roedd

y dull cydweithredol hefyd yn rhoi mwy o lais i POCT yn y Llywodraeth. Anfantais grŵp anffurfiol oedd anghydraddoldeb rhwng byrddau iechyd o ran adnoddau a strwythurau staff; roedd gofynion gwasanaethau yn wahanol ac nid oedd gan rai'r capasiti na'r adnoddau i gyflawni'r hyn oedd angen; collwyd y cyfle i gael gwasanaethau mwy "cydgysylltiedig" ar draws Cymru gyfan. Yn ogystal, roedd y cwmpas wedi'i gyfyngu i brofion patholeg ar gyfer y rhan fwyaf o'r adrannau ac felly, roedd dyfeisiau ffisioleg cardiaidd, resbiradol, delweddu naill ai heb gael eu hystyried neu gwelwyd y trefniadau llywodraethu yn cael eu dyblygu.

Gan adeiladu ar lwyddiant y rhwydwaith anffurfiol, un o'r camau gweithredu allweddol yn Natganiad o Fwriad y Rhaglen Patholeg Genedlaethol, a gyhoeddwyd yn 2019, oedd sefydlu trefniant mwy ffurfiol i gyflwyno gwasanaethau Profion Pwynt Gofal yn GIG Cymru. Cafodd Grŵp Strategaeth Cenedlaethol o arweinyddion clinigol a Rheolwyr POCT o bob bwrdd iechyd, rhanddeiliaid a chynrychiolwyr y llywodraeth ei sefydlu gyda'r nod o bennu'r strategaeth a safonau, gyda'r Grŵp Cyflawni POCT Cenedlaethol yn helpu i gyflwyno'r gwasanaeth. Fodd bynnag, yn ystod y pandemig, cafodd gwaith y ddau grŵp ei addasu at ddibenion gwahanol i ddilysu dulliau / dyfeisiau POCT possib fel rhan o'r strategaeth profion COVID, yn ogystal ag i sylwi ar broblemau gweithredol a rhoi cyngor yn eu cylch.

Yn 2023, cafodd Strategaeth PoCT Genedlaethol ei datblygu, gan amlyu'r weledigaeth ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a chrëwyd hefyd Fwrdd mwy ffurfiol ar gyfer y Strategaeth PoCT Genedlaethol – sef Bwrdd dan arweiniad clinigol a sefydlwyd i gydlyn, a chefnogi'r gwaith o gynllunio, gweithredu a chyflwyno gwasanaethau PoCT.

Mae gwasanaeth PoCT "Cymru'n un" sy'n canolbwytio ar gleifion ac sy'n gydnaws â "Cymru lachach":

- Yn cyflwyno gofal iechyd drwy ddull "diagnosteg yn unrhyw le"; gan ddarparu profion diagnostig lle bo angen
- Yn lleihau amrywiadau amhriodol gan ddefnyddio arferion seiliedig ar dystiolaeth yn gyson ac yn dryloyw
- Yn hwyluso prosesau caffaol effeithlon ar gyfer deunyddiau traul a chyfarpar sy'n gysylltiedig â PoCT gan weithredu ar sail gwerth
- Yn defnyddio adnoddau'r gweithlu mewn ffodd effeithlon ac effeithiol; gweithlu sy'n hyblyg ac sy'n gallu gweithio ar draws ffiniau daearyddol Byrddau lechyd
- Yn sicrhau bod y modelau gweithlu yn gynaliadwy a bod rhaglenni hyfforddiant safonedig yn cael eu datblygu ar bob lefel i'r lefel iawn ar gyfer yr angen clinigol
- Yn croesawu gwaith aml-ddisgyblaethol, gan chwalu'r rhwystrau rhwng arbenigeddau "unigol", gan fuddsoddi mewn rhoi hyfforddiant uwch i dimau PoCT a darparu sgiliau eang a pherthnasol ar draws arbenigeddau sy'n briodol ar gyfer ein hanghenion i'r dyfodol
- Yn gweithio mewn partneriaeth â'r byd academaidd i chwilio am gyfleoedd, gan ddefnyddio dulliau arloesol i'r eithaf gyda thechnoleg darfol a thrawsnewidiol
- Yn adeiladu ar y Strategaeth TG ar gyfer anghenion y dyfodol, gan ddefnyddio deallusrwydd busnes i'r eithaf.

Ffocws ar



Hoffech chi rannu eich angerdd am batholeg ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf? Byddwch yn [Llysge nad Patholeg](#) ac ymuno â chymuned gynyddol o bobl o'r un anian sydd eisiau gwneud gwahaniaeth.

Caiff y cynllun Llysge nad Patholeg ei redeg ar y cyd â [STEM Learning UK](#). Boed e'n gyflwyniad dosbarth, yn ymweliad â'r gweith neu'n fentora rhithiol, mae STEM Learning yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i sicrhau bod pob Llysge nad yn gwbl barod ac yn gallu dod o hyd i gyfleoedd sy'n cyd-fynd â'u nodau gwirfoddoli, ac â lefel eu profiad a'u hyder.

Defnyddiwr y ddolen isod i ddysgu rhagor:
[Llysge nad Patholeg \(rcpath.org\)](http://rcpath.org)

Yr Eisteddfod Genedlaethol

Cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol mewn lleoliad gwahanol yn ystod wythnos gyntaf Awst bob blwyddyn ac mae'n ddathliad o ddiwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg. Mae'r Eisteddfod yn denu 150,000 o ymwelwyr bob blwyddyn yn ystod yr wythnos ac mae'n wyl llawn bwrlwm sy'n cynnig cannoedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer pob oed. Cymerodd tîm patholeg BIPBC yr her o gynnal stondin yn y pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg ar y cyd â Sefydliad y Gwyddorau Biofeddygol. Bu cyfanswm o 11 o'n tîm gwyddonol yn gweithio yno yn ystod yr wythnos. Llwyddom i gynnal amrywiol weithgareddau STEM gyda'r plant i ennyn eu diddordeb

mewn gwyddor feddygol, gyda'r breichledi wedi'u personoli yn seiliedig ar DNA yn hynod boblogaidd. Yn ogystal â'r manteision a gaiff y staff, fel DPP, cydnabyddiaeth a phwrpas, mae mynychu gweithgareddau fel yr eisteddfod yn gyfle gwych i gryfhau ein perthnasoedd gyda'n cydweithwyr, ein cleifion a'r cyhoedd yn ehangach. Mae Patholeg yn gydran o'r system gofal iechyd sy'n aml yngudd o olwg y cyhoedd, mae cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r heriau a wynebwn fel gwasanaeth a'r amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrafaol sydd gennym i'w cynnig yn y maes patholeg yn rhan holl bwysig o barhau i ddatblygu a diogelu ein gwasanaeth i'r dyfodol.

Yn ogystal, fe roddodd yr eisteddfod gyfle inni weld cyn-gydweithwyr, gan gynnwys Trefor Roberts ac Arfon Jones a oedd yn cofio at bawb ac yn dymuno'r gorau iddynt. Diolch o galon i Vicky, Gwen, Guto, Angela, Aled, Ffion, Jade, Ashley, Elin ac Emma i gyd am wneud sifftiau ar y stondin, a hoffem ddiolch yn arbennig i Alys am fod yn gynorthwydd gwyddonol inni am un o'r dyddiau hynny. Yn dilyn adborth o'r digwyddiad mae'r IBMS a RCpath yn awyddus i wneud rhagor o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru, felly rydyn ni'n sicr o gael cyfleoedd tebyg yn fuan dros y blynnyddoedd nesaf.

Gweler isod i ddarllen yr erthygl lawn:

Dathlu ein haelodau Cymreig sy'n gweithio ym maes patholeg - Sefydliad y Gwyddorau Biofeddygol (ibms.org)



**Bardd Cenedlaethol Cymru yn nodi pen-blwydd y GIG yn 75
Y di-glod (cardiffandvale.art)**

Mae Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru, wedi ysgrifennu cerdd 'The Unsung' i nodi pen-blwydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 75. Cafodd y gerdd a'i chyflieithiad i'r Gymraeg, Y Di-glod, gan Grug Muse eu comisiyny gan Llenyddiaeth Cymru.

Perfformiodd Hanan Issa a Grug Muse y gerdd yn y Gwasanaeth Diolchgarwch Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Eglwys yr Atgyfodiad, Trelai, Caerdydd ddydd Mawrth 4ydd Gorffennaf. Roedd hwn yn un o nifer o weithgareddau a gynhaliwyd i ddathlu cyfoeth doniau ac amrywiaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Comisiynyd y gerdd hon gan Llynyddiaeth Cymru i nodi 75 mlynedd ers sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Ymchwiliodd Hanan Issa or gyfer y gerdd trwy gwywed am broffadau rhai o arwyr tawel y GIG, gan gynnwys staff labordai patholeg, staff meddygfa ac ymarferwyr lechyd meddwl.

G
Y DI - GLOD
Darllenir gan Hanan Issa - Bardd Cenedlaethol Cymru a Grug Muse

I
Wna i ddim clasio i chi - yr anghofedig, llyfeitheriog, di-glod. Yn dario'r stori ynghyd o'r olwg ar eu hwyneb, y gwaed. Ellidiadu mor enbyd, mor boenius.

'Ro'n i wastad eisiau helpu pobl' yn astenieio heibio goleuadau crynedig o choffi oer wrth i chi dorchi llewys gan wybod fod mom, brawd, neu gymydog rhywle'n aros.

Alla i ddilim clasio i chi - fforddolion. Yn pwynho gobaith mewn sifftau o du o ôl i len, tu ôl i gwariwyd.

Tafellau o groen ar sleidiadu, eu hatebion llw llachar yngudd mewn cymylau a smotiau inc. Ac eto rydych chi'n mordwyo'ch ffordd at berson. Yn camu mewn i gartrefi llawn ewyn ofn, cyn gadael rhywbeth siap cofaidd gynnes yn eich holau.

Feiddia i ddim clasio i chi - siamaniad yn twynnu mewn cysgodion. Yn chwilio am belydrau gobairt, yn dal plasma at y golau. Sut ydych chi'n consurio gwenua a llwyddianau heb gwsg na sicrwydd? Meithrin ffyrdd o dryblith chwiflriw. Cleifion heb syniad am eich gwasanaeth, yn geirio 'troponin' neu 'lliniarolo' fel gweddi.

Cymherch y pin, fy mhapur, y geiriau hyn i gyd. Ond allá i ddim addo cymeraidwyaeth i chi, om fod clapión awgrymu fod y gwaith ar ben.

G
@
7
5

Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru
Cylchgrif Cyngor gan Grug Muse

 GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol
 NHS Wales | Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phobl yr Hanes
 University Health Board

75 Cardiff & Vale
HealthCharity
ElusenLleched
Gwasled by'r Ffurfiad

Y di-glod - cliciwch yma i weld y gerdd

Cadwch y Dyddiad

Diwrnod Patholeg Rhyngwladol – dydd Mercher 8^{fed} Tachwedd

Ymunwch am gynhadledd hybrid – ar-lein neu'n bersonol yn The College yn Llundain, ynghyd â'r **Gymdeithas Hematoleg Brydeinig (BSH)** a **The Pathologist**, noddwr y digwyddiad, i ddatlhu patholegwyr a gwydonwyr ym mhob cwr o'r byd.

Cynhelir y gynhadledd **dydd Mercher, 8 Tachwedd, 10.00 – 14.00** (os ydych yn mynychu'n bersonol, rhaid cofrestru rhwng **9.30 a 9.55 GMT**). Yn dilyn y gynhadledd ceir lluniaeth a chyfile i rwydweithio â'r cynadleddwyr eraill tan 14.40.

Bydd y siaradwraig wadd arbennig, yr Athro Virginia Murray, Pennaeth Lleihau Risgiau Trychinebau Byd-eang ar gyfer Canolfan Asiantaeth lechyd a Diogelwch y DU dros Ddiogelwch lechyd a Hinsawdd, yn agor y gynhadledd. Bydd yr Athro Murray yn sgwrsio â Phrifathro'r Coleg, yr Athro Mike Osborn, gan rannu eu profiadau a'u harbenigedd.

Dyma'r ddolen i'r wefan lle ceir y manylion llawn: **Diwrnod Patholeg Rhyngwladol 2023 – cyfarfod hybrid (rcpath.org)**

Digwyddiadau Patholeg

Cynhadledd Patholeg GIG y de: Cynhelir digwyddiad eleni yn yr **Hatfields Conference Centre, Llundain, SE1 8DJ** ddydd Iau 17^{eg} Hydref. I archebu eich lle ac am yr agenda lawn o ddigwyddiadau ewch i: **Convenzis - Event ~ NHS Pathology Conference South 2023**

Rhaglen Gwyddorau Gofal lechyd Genedlaethol – Gweminar Technoleg lechyd Cymru: Bwriedir y weminar hon ar gyfer gwydonwyr gofal lechyd ar draws GIG Cymru sydd â diddordeb mewn cymhwysyo technoleg lechyd mewn gwyddor gofal lechyd ac fe'i cynhelir ar-lein ar **9^{fed} Tachwedd**. I gael manylion pellach ac i archebu lle yn y digwyddiad, ewch i: **National Healthcare Science Programme - Health Technology Wales Webinar Tickets, Iau 9 Tach**

Perfformiodd y ddwy y gerdd yn y Senedd hefyd ddydd Mercher 5^{ed} Gorffennaf mewn digwyddiad a drefnwyd gan Gydfederasiwn GIG Cymru.

I ymchwilio i'r gerdd hon, bu Hanan yn holi gweithwyr di-glod y GIG gan gynnwys staff labordai patholeg, staff mewn practis meddygon teulu, ac ymarferwyr lechyd meddwl am eu profiadau.

Cafodd Hanan Issa ei henwi yn Fardd Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2022. Yn ystod ei chyfnod yn y swydd, mae am i bobl gydnabod Cymru fel gwlad sy'n llawn creadigrwydd: gwlad beirdd a chantorian sydd â chymaint i'w gynnig i'r celfyddydau.

Digital Pathology & AI – y 10^{fed} Cyngres Patholeg Ddigidol ac AI, Llundain: Yn y digwyddiad 2 ddiwrnod hwn, bydd y siaradwyr gwadd yn archwilio'r datblygiadau diweddaraf mewn patholeg ddigidol a'u cymwysiadau 7^{fed} – 8^{fed} Rhagfyr yn **The Intercontinental Hotel, Llundain.** I gael rhagor o fanylion ac i gofrestru ar gyfer y digwyddiad ewch i: **Digital Pathology & AI Congress: Europe (global-engage.com)**

Tîm y Rhaglen

Alan Deacon	Arweinydd y Rhaglen Batholeg Genedlaethol
Adam Christian	Arweinydd Clinigol y Rhaglen Batholeg Genedlaethol
Caity Thomas	Uwch Reolwr Prosiect, yn canolbwytio ar Batholeg Gellog Ddigidol
Jane Long	Rheolwr Prosiect, Gweithlu, hyfforddiant ac addysg batholeg.
Lisa McCutcheon	Rheolwr Prosiect, Cyfathrebu ac ymgysylltu ym maes Patholeg.
Leanne Barker	Uwch Swyddog Cefnogi Prosiectau
Joanne Everett	Uwch Swyddog Cefnogi Prosiectau

Lynda Ferron Hoffwn ni gymryd y cyfle hwn i ddiolch ein Uwch Reolwr Prosiect, Lynda. Am ei holl waith caled a'i harbenigedd wrth gefnogi'r cydweithio/rhanbarthau yn y De-ddwyrain a'r De Orllewin. Wnaeth Lynda cwblhau ei gwaith gyda ni ddiwedd mis Medi.

a'n reciwt newydd:

Nicholas (Nick) Francis Uwch Swyddog Cefnogi Prosiectau (BGD)

Nick ydw i, rwy'n Swyddog Cefnogi Prosiectau, roedd gen i dros 25 mlynedd o brofiad yn y diwydiant Dyfeisiau Meddygol IVD cyn ymuno â'r GIG yn Ebrill 2022.

Rwy'n awr yn rhan o'r Rhaglen Batholeg Genedlaethol er mis Gorffennaf 2023, yn canolbwytio ar Batholeg Gellog Ddigidol.

Mae fy nghefn dir yn cynnwys rolau yn Siemens Medical Diagnostics a Beckman Coulter Ltd. Yn Beckman Coulter, roeddwn yn helpu cwsmeriaid y GIG â phrofion gwaed *immunoassay* a chemeg glinigol. Ym mis Ebrill 2022, ymunais â'r GIG fel Uwch Swyddog Cefnogi ym Mwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yn ddiweddarach, symudais i gefnogi rhaglen y System Rheoli Gwybodaeth Labordai Cymru gyfan (LIMS) yn lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Ddigidol lechyd Gofal Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2023, ymunais â'r Rhaglen Batholeg Genedlaethol.

Cysylltwch â Ni

E-bostiwch NHSWHC.National.Pathology.Programmes@wales.nhs.uk os hoffech:

- gael eich ychwanegu i'r rhestr ddosbarthu ar gyfer ein cylchlythyr
- rhoi adborth neu gyfrannu
- clywed am gyfleoedd i ymgysylltu â gwaith y Rhaglen

Gwefan: Byddwn yn diweddar ein tudalennau ar wefan Gweithrediaeth y GIG â chynnwys newydd yn fuan.

Rhifyn nesaf – Ionawr 2024

NHS Wales Health Collaborative | 1st Floor, River House, Ynys Bridge Court, Gwaelod y Garth, Cardiff, CF15 9SS United Kingdom

[Unsubscribe helen.james13@wales.nhs.uk](#)

[Update Profile | Constant Contact Data Notice](#)

Sent by nhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.uk powered by



Try email marketing for free today!